**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# CYFARFOD BLYNYDDOL

**20 Mehefin 2011**

## PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL

**Adroddiad gan Colin Everett,**
**Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad yw i gynnig i'r Awdurdod benodi aelodaeth pwyllgorau mewnol a rhai amrywiol allanol gan gynnwys cynrychiolydd i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Cefndir

2 Mae gan yr Awdurdod gyfres o Bwyllgorau a Gweithgorau y gwneir penodiadau iddynt yn y cyfarfod cyntaf neu'r cyfarfod blynyddol. Mae'r rhain wedi eu nodi isod.

3 Yn y gorffennol, mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chymhwyso cydbwysedd gwleidyddol i aelodaeth ei Bwyllgorau o dan Reol 20 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990. Edrychwyd ar y mater hwn eto yn ystod adolygiad cyfansoddol yng nghanol 2008-09. Mae consensws cyffredinol wedi bod na fyddai cydbwysedd gwleidyddol yn fuddiol gan fod y trefniadau presennol yn gynhwysol ac yn osgoi creu 'rhaniad gwleidyddol' yn llywodraethiad yr Awdurdod.

4 Cynrychiolir yr Awdurdod ar y cyrff canlynol:

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) | Cadeirydd fel arfer |
| Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) | Cadeirydd fel arfer |
| Panel Gwasanaethau Tân Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd |
| Grŵp Cyswllt Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân Gweinidogol Tân ac Achub | Cadeirydd fel arfer |
| Fforwm Gwasanaethau Tân LGA | Un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Pwyllgor Cydlynu WLGA | un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Ymddiriedolwyr Atal Tân | Cadeirydd |

**Gwybodaeth**

5 Gwneir penodiadau i'r Pwyllgorau a'r Gweithgorau canlynol:-

- Panel Gweithredol (14 aelod)
- Pwyllgor Archwilio (14 aelod)
- Pwyllgor Safonau (2 aelod) (dim angen cydbwysedd gwleidyddol o dan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001)
- Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg (14 aelod) (yn hanesyddol, mae aelodaeth o'r Grŵp hwn yr un fath â'r Panel Gweithredol).

6 Mae gweithgorau wedi ei heithrio o reolau cydbwysedd gwleidyddol.

7 Mae cylchoedd gwaith y Pwyllgorau a Gweithgorau uchod, os ydynt yn bodoli, wedi eu cynnwys yn Llawlyfr yr Aelodau.

8 O ystyried fod rhaid i awdurdodau cyfansoddol gymhwyso'r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol ar eu pwyllgorau (ond yn achos cabinetau), anogir Awdurdodau i enwebu aelodau i'r Awdurdod ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fe ddylai'r Awdurdod ei hunan ystyried yn flynyddol os yw'n dymuno cymhwyso

cydbwysedd gwleidyddol, gan nodi sylwadau 3 uchod. Os fyddai'r Awdurdod yn cymhwyso'r egwyddor hyn, dylid gwneud penodiadau i bwyllgorau sy'n sicrhau fod gan yr holl awdurdodau cyfansoddol gynrychiolaeth ddigonol.

9 Mae aelodaeth o'r Panel Gweithredol yn cynnwys 14 aelod, sef y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd a dau aelod o bob awdurdod cyfansoddol. Mae'r aelodaeth yn cynrychioli 50% o aelodaeth yr Awdurdod. Estynnwyd swyddogaeth ac aelodaeth o'r Panel yn yr adolygiad cyfansoddol yn ystod 2008-09.

10 Cytunodd yr Awdurdod i gyflwyno Pwyllgor Archwilio i adolygu, craffu a sicrhau, yn annibynnol o'r Gweithredol, perfformiad gweithredol ac ariannol y sefydliad. Aelodaeth y Pwyllgor yw'r 50% o'r aelodaeth sy'n weddill sydd heb eu penodi ar y Panel Gweithredol.

11 Mae cyfnod Simon Fysh fel Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn dirwyn i ben ym Medi 2011. Felly bydd angen aelod newydd ar y Pwyllgor a phenodi Cadeirydd newydd.

## Argymhellion

12 Argymhellir fod yr Awdurdod yn:
- (i) ystyried cymhwyso'r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol i Bwyllgorau;
- (ii) ystyried penodiadau i'r Pwyllgorau a'r Gweithgorau fel a amlinellir yn yr adroddiad; a
- (iii) phenodi cynrychiolwyr i'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) | Cadeirydd fel arfer |
| Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Cadeirydd fel arfer |
| Panel Gwasanaethau Tân Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd |
| Grŵp Cyswllt Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân Gweinidogol Tân ac Achub | Cadeirydd fel arfer |
| Fforwm Gwasanaethau Tân LGA | Un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Pwyllgor Cydlynu WLGA | un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Ymddiriedolwyr Atal Tân | Cadeirydd |

**Atodiad 1**

PANEL GWEITHREDOL

| **Cynghorydd** | **Awdurdod Cyfansoddol** |
|---|---|
| Sharon Frobisher (Cadeirydd) | Sir Ddinbych |
| Meirick Lloyd Davies | Sir Ddinbych |
| Gwilym C Evans | Sir Ddinbych |
| Aled Morris Jones (Is-Gadeirydd) | Ynys Môn |
| Lewis W Davies | Ynys Môn |
| J V Owen | Ynys Môn |
| Bill Roberts | Conwy |
| Merfyn Thomas | Conwy |
| Brian Dunn | Sir y Fflint |
| Grenville James | Sir y Fflint |
| Tudor Owen | Gwynedd |
| Trevor Roberts | Gwynedd |
| Pat Jeffares | Wrecsam |
| Rodney Skelland | Wrecsam |

PWYLLGOR ARCHWILIO

| | |
|---|---|
| Ted George (Cadeirydd) | Wrecsam |
| David Kelly | Wrecsam |
| James Kelly | Wrecsam |
| Philip C Evans | Conwy |
| W Knightly | Conwy |
| Adrian Tansley | Conwy |
| Glyn Williams | Sir Ddinbych |
| David Barratt (Vice-Chair) | Sir y Fflint |
| Norma M Jones | Sir y Fflint |
| Doreen Mackie | Sir y Fflint |
| Ann Minshull | Sir y Fflint |
| Margaret Griffith | Gwynedd |
| Evie Morgan Jones | Gwynedd |
| Gwilym O Williams | Gwynedd |

GWEITHGOR CYNLLUNIO I LEIHAU RISG

| | |
|---|---|
| Sharon Frobisher (Cadeirydd) | Sir Ddinbych |
| Meirick Lloyd Davies | Sir Ddinbych |
| Aled Morris Jones (Is-Gadeirydd) | Ynys Môn |
| J V Owen | Ynys Môn |
| Bill Roberts | Conwy |
| Merfyn Thomas | Conwy |
| Brian Dunn | Sir y Fflint |
| Grenville James | Sir y Fflint |
| Tudor Owen | Gwynedd |
| Trevor Roberts | Gwynedd |
| Ted George | Wrecsam |
| Pat Jeffares | Wrecsam |